



Ymateb i argyfwng yr hinsawdd

**Llesiant Cymru yn y Dyfodol: edrych y tu hwnt i
Brexit**

Gethin Rhys, Julian Rosser a Susie Ventris-Field

*Comisiynwyd gan CGGC, ariannwyd gan
Gronfa Bontio Ewropeaidd Llywodraeth Cymru*



1. Cyflwyniad

Pan gafodd y papur gwyntyllu hwn ei gomisiynu, [credai CGGC](#) mai Brexit oedd *y newid cymdeithasol mwyaf a welwyd yng Nghymru ers degawd*. Ond newid bychan oedd hwn o'i gymharu ag argyfwng byd-eang COVID-19. Yn wir, gallai camau gweithredu sydd wedi cyfrannu at newid hinsawdd (fel datgoedwigo) [fod wedi cyfrannu at COVID](#). Mae'r papur hwn felly'n galw am ffocws parhaus ar argyfwng yr hinsawdd, a mwy o ffocws na roddwyd ar Brexit a COVID hyd yn oed.

Rydym ni'n ddiolchgar i'r holl rai hynny a gytunodd i gael eu cyfweild, a gwblhaodd ein holiadur neu a gyflwynodd wybodaeth i ni o dan amgylchiadau anodd. Rydym ni hefyd yn ddiolchgar i staff Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a roddodd o'u hamser i siarad â ni ar ôl cyhoeddi eu [Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020](#). Byddwn ni'n cyfeirio at eu hadroddiad fel CCD, a'r adroddiad cyfochrog gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, [Felly, Beth sy'n Wahanol?](#), fel AC.

Ni sy'n gyfrifol am y defnydd rydym ni wedi'i wneud o'r cyfraniadau hyn, wrth gwrs. Cyflwynwyd yr holl nodiadau o'r cyfweiliadau a chanlyniadau'r holiadur gyda'r adroddiad hwn fel bod y sylfaen dystiolaeth ar gael. Gobeithiwn y bydd y cyfraniad byr hwn yn sbarduno trydydd sector Cymru i roi blaenoriaeth i ymateb i'r argyfwng hinsawdd yng nghyd-destun Brexit ac adfer o'r pandemig.

2. Gweithredu ar newid hinsawdd yn nhrydydd sector Cymru

Roedd yn anochel y byddai rhywfaint o hunan-ddewis ymhlith y rheini a gymerodd ran yn ein gwaith. Fe siaradom â'r mudiadau hynny yn nhrydydd sector Cymru sy'n canolbwyntio'n bennaf ar weithredu ar newid hinsawdd ac, yn fwy cyffredinol, ar yr amgylchedd. Ond roedd y categori mwyaf o ymatebwyr i'r arolwg yn cynnwys y rheini a ddywedodd, "Rydym ni'n credu bod gweithredu ar newid hinsawdd yn bwysig ac yn gwneud yr hyn a allwn, ond nid yw'n flaenoriaeth i ni." Rydym ni'n amau mai dyma farn gyffredinol llawer o'r trydydd sector yng Nghymru (yn hyn o beth).

Pan ofynnwyd 'Beth fyddai'n eich annog i weithredu mwy ar newid hinsawdd?', dywedodd dros hanner ohonynt, 'Mynediad at dystiolaeth a chmau gweithredu gwell ynghylch y math cywir o weithredu y dylem ni ei wneud' a 'chyllid sy'n gysylltiedig â gweithredu ar newid hinsawdd'. Mae [Prosiect Llythrennedd Carbon](#) Cynnal Cymru a [Prydain Ddi-garbon](#) Canolfan y Dechnoleg Amgen wedi datblygu offer i alluogi mudiadau eraill i weithredu o fewn eu cwmpasau dylanwadu eu hunain neu o ran eu hól troed carbon eu hunain. Mae'r sector ffydd ledled y DU wedi datblygu ei offer ei hun – [EcoChurch](#) (i leihau ôl troed carbon ac amgylcheddol gweithgareddau eglwysi), [Sul yr Hinsawdd](#) (i annog eglwysi a oedd yn ymgyrchu cyn COP26) ac [Ecolslam](#).

Mae yna rai rhwydweithiau ar gyfer cydweithio, megis [Atal Anrhefn Hinsawdd Cymru](#) a [Cyswllt Amgylchedd Cymru](#), ond mae'r rhain yn tueddu i fod yn gyfyngedig i nifer bychan o fudiadau yn hytrach na'r trydydd sector i gyd. Mae'r glymblaid llawer ehangach a helpodd i lunio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y [Gynghrair Datblygu Cynaliadwy](#), yn gweithredu ar raddfa llawer llai.

3. Brexit a newid hinsawdd

Credai dwy ran o dair o ymatebwyr yr arolwg y byddai Brexit yn cael dylanwad arwyddocaol ar weithredu ar newid hinsawdd yn y dyfodol. Dyma rai agweddau penodol a gafodd eu crybwyll yn ystod ein cyfweiliadau:

- colli rheoliadau'r UE, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fynd i'r afael â newid hinsawdd
- posibilrwydd o golli mynediad at Gynllun Masnachu Carbon yr UE
- colli ffynhonnell gyllido er mwyn i'r trydydd sector weithredu ar newid hinsawdd
- y perygl y bydd y DU yn ymadael ag ymdrechion rhyngwladol eraill, naill ai am ei bod wedi cymryd rhan drwy'r UE yn flaenorol, neu am ei bod yn symud i ffwrdd o ryng-genedlaetholdeb ar lefel lywodraethol y DU. Nid oedd yn syndod fod mudiadau'r sector rhyngwladol yn pryderu'n fawr ynghylch hyn
- gostyngiadau posibl mewn masnach ryngwladol, ac o ganlyniad, colli ei buddion cadarnhaol, fel lleihau tlodi byd-eang drwy helpu ffermwyr mewn gwledydd datblygol i wneud bywoliaeth, hyrwyddo cydraddoldeb, heddwch a hawliau dynol
- y bydd y gwledydd tlotaf yn ôl-ystyriaeth mewn trafodaethau masnach.

Nodwyd dau faes a allai fod yn fwy cadarnhaol:

- Datblygu polisiau defnydd tir ac amaeth newydd y tu allan i'r UE. Clywsom groeso tawel i ddatblygiad [Ffermio Cynaliadwy a'n Tir](#) gan Lywodraeth Cymru (Gweler hefyd adran 4a isod).
- Datblygu polisiau caffael lleol fel rhan o adeiladu'r economi sylfaenol, a drafodir yn adran 4. (Er bod y [Bil Masnach](#) sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd yn rhagweld y bydd y DU yn ymuno â [Chytundeb Caffael Llywodraeth](#) Sefydliad Masnach y Byd a fydd yn parhau i gyflwyno rhai mathau o flaenoriaethau lleol ym maes caffael y sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru wedi [argymhell](#) y dylai Senedd Cymru roi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil hwn. Mae CCD yn canolbwyntio'n benodol ar gaffael, tt. 127-152, ond nid yw'n trafod y Bil Masnach).

Rydym ni'n cytuno â'n hymatebwyr bod angen llobio pellach yn y meysydd hyn ar frys wrth i ddeddfwriaethau ar ôl Brexit gael eu datblygu ac wrth i [drafodaethau masnach yn y dyfodol barhau](#) – gweler ein her i Lywodraeth y DU a'r trydydd sector yn adran 6.

4. “Yr economi sy'n bwysig”

Nodwedd syfrdanol o'n cyfweiliadau oedd nifer yr ymatebwyr a ymddiheurodd nad oedden nhw'n arbenigo mewn economeg ac, yn benodol, mewn masnach ryngwladol. Y tu allan i'r nifer bychan iawn o arbenigwyr sy'n gweithio yn y maes hwn yng Nghymru, a'r rheini sydd â mynediad at arbenigedd o'r fath ar lefel y DU o fewn eu mudiad, caiff y gwendid hwn ei deimlo'n ddwfn.

Efallai bod hyn yn helpu i egluro'r ymatebion i'r cwestiwn yn yr arolwg a oedd yn gofyn i ymatebwyr roi eu hunain ar raddfa rhwng y datganiadau ‘Mae'r ffordd y mae'r economi'n gweithio nawr yn ei gwneud hi'n amhosibl mynd i'r afael â newid hinsawdd’ a ‘Nid yw'r ffordd y mae ein heconomi'n gweithio yn rhwystr i fynd i'r afael â newid hinsawdd’. Mae nifer syfrdanol o ymatebwyr (yn ein tyb ni) yn dueddol o deimlo y gellir ymdrin â'r argyfwng hinsawdd o fewn y system economaidd gyfredol.

Mae'r ffordd y mae ein heconomi'n gweithio nawr yn ei gwneud hi'n amhosibl mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd



Nid yw'r ffordd y mae ein heconomi'n gweithio yn rhwystr i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.


Ffigur 1 Ymatebion yr arolwg – gofynnwyd i'r ymatebwyr symud llithrydd i ddangos i ba raddau roeddent yn cytuno â'r ddau ddatganiad

Mae hyn yn gwbl groes i ddatganiadau CCD, Mae ein system economaidd wedi torri (t. 166) ac Mae'r dystiolaeth yn glir: fe grëwyd ein model economaidd ac ariannol o ganlyniad i ecsbloetio adnoddau naturiol a difrod amgylcheddol ... O ganlyniad, rydym eisoes yn dechrau taro ar derfynau amgylcheddol ar dwf economaidd... Mae'n anghynaladwy, yn annheg, ac os na chaiff ei wirio, bydd yn parhau i greu argyfyngau dyngarol ledled y byd. (t. 177)

Dylai safbwyntiau gwahanol y Comisiynydd a rhai yn nhrydydd sector Cymru fod yn achos dros feddwl am hyn ar frys. Pan fydd hyd yn oed Fforwm Economaidd y Byd yn dod i'r casgliad mai'r [prif risgiau yw rhai amgylcheddol, ond os anwybyddir economeg bydd hi'n anoddach eu datrys](#) (pennawd newyddion a gyhoeddwyd ynghylch [Adroddiad Risgiau Byd-eang 2020](#)), rhaid bod diffyg arbenigedd economeg trydydd sector Cymru'n destun pryder difrifol.

Ym mis Mawrth, cyhoeddwyd [Toesen Cymru 2020](#) (ar y dudalen nesaf) – dyluniad o ganlyniadau'r system economaidd gyfredol yng Nghymru. Yn ogystal â dangos lefelau difrifol o dlodi domestig ac allgau cymdeithasol, mae hefyd yn dangos bod economi Cymru'n torri'r terfynau planedol o 455%, ac o 56% ar gollu bioamrywiaeth. Dengys hyn ein bod nid yn unig yn dechrau taro ar derfynau twf economaidd ond ein bod wedi turio drwyddynt.

Yn y 40 mlynedd ddiwethaf, meddai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r ddynoliaeth wedi mynd o ddefnyddio gwerth un blaned o adnoddau naturiol bob blwyddyn, i ddefnyddio un a hanner ac mae ar y trywydd i ddefnyddio'r un gwerth â thair planed erbyn 2050. (CCD t. 166). Dros yr un cyfnod, [mae'r allyriadau carbon byd-eang wedi mwya dyblu](#).



Ffigur 2 Canlyniadau Toesen Economaidd Cymru Oxfam 2020

Oxfam 2020 ©

Cyfeiriodd nifer o'n hymatebwyr at **fasnach ryngwladol** yn y cyd-destun hwn – pwnc a ddyrchafwyd o ran ymwybyddiaeth gyhoeddus yn ystod y trafodaethau ynghylch Brexit. Ni wnaeth unrhyw un, fodd bynnag, y cysylltiad rhwng y cynnydd aruthrol mewn allyriadau a'r newidiadau mawr i economi'r byd yn ystod yr un cyfnod. Mae Naomi Klein yn [This Changes Everything: Capitalism vs the Climate](#), mewn adran o dan y pennawd, *A Wall Comes Down, Emissions Go Up* (t. 72) yn credu bod ffurfio'r Farchnad Sengl Ewropeaidd ledled gorllewin a dwyrain Ewrop – ynghyd â Sefydliad Masnach y Byd – yn allweddol i'r ffaith bod y broblem o ran "cynhesu byd-eang" yn mynd fwyfwy y tu hwnt i reolaeth. Mae masnach ryngwladol ynddo'i hun yn creu allyriadau carbon drwy drafnidiaeth; mae'n creu cadwynau cyflenwi 'mewn pryd' sy'n dibynnu'n helaeth ar y drafnidiaeth hon ac yn galluogi allyriadau carbon a llygredd

yn gyffredinol gael eu his-gontractio i economïau tlotach; ac mae'n niweidio [iechyd pobl a'r blaned](#). Mewn geiriau eraill, y model economaidd "sydd wedi torri" a nodwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r model o gynyddu masnach i'r eithaf a luniwyd ac a weithredwyd gan yr UE a Sefydliad Masnach y Byd. (Serch hyn, nid yw'r modelau hynny'r un fath yn union o ran eu heffeithiau – mae model yr UE hefyd yn gosod safonau cymdeithasol ac amgylcheddol ar fasnachwyr, a bydd cyfyngiadau o'r fath yn aml [yn groes i egwyddorion Sefydliad Masnach y Byd](#) ac yn cael eu gwrthdroi gan ei [weithdrefn datrys dadleuon](#)).

Roedd nifer o'n hymatebwyr wedi cyfrannu at lunio [Strategaeth Ryngwladol](#) Llywodraeth Cymru, yn benodol, drwy ddylanwadu ar y ffordd y cafodd y nod llesiant "Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang" ei lunio. Mae'n arwyddocaol mai'r un bennod o'r strategaeth nad yw'n nodi unrhyw flaenoriaethau o ran y nod hwn yw'r bennod ar fasnach (p. 24), er y cyfeirir at y nod ar adegau yn nhestun y bennod. Mae CCD t. 410 yn dyfynnu [Cerdyn Sgorio Ffeministaidd](#) Oxfam a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (t.12, cyhoeddwyd cyn y Strategaeth) wrth nodi *nad oes unrhyw dystiolaeth ar gael yn gyhoeddus bod cyfrifoldeb byd-eang yn ystyriaeth [gan Lywodraeth Cymru] wrth fasnachu neu wneud penderfyniadau hyrwyddo eraill*. Mae'r Comisiynydd yn argymhell y *Dylai Llywodraeth Cymru geisio manteisio ar gyfleoedd i gynorthwyo Llywodraeth y Deyrnas Unedig i weithio allan polisi masnach newydd ar ôl Brexit i hyrwyddo gwerthoedd o fewn perthnasoedd masnachu nad ydynt yn ecsbloetio pobl na'r blaned ...* (t. 428). Mae Papur Gwyn 2018 Llywodraeth Cymru, [Y Polisi Masnach: Materion Cymru](#), yn cyfeirio at *hybu masnach deg a moesegol* fel un o nifer o egwyddorion trosfwaol ar gyfer polisi masnach (t. 21), ond nid yw'n cynnwys unrhyw fanylion pellach.

Byddem wedi disgwyl i bawb yn nhrydydd sector Cymru fod yn amheus ynghylch model economaidd sy'n seiliedig ar y patrymau masnach rhyngwladol cyfredol, gan ystyried bod y sector wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau Cymru fel [Cenedl Fasnach Deg](#) gyntaf y byd; Mae angen Masnach Deg gan fod masnach ryngwladol yn annheg. Mae parhau â [threfniadau masnachu blaenoriaethol yr UE ar gyfer gwledydd tlotaf y byd](#) a'u gwella yn un o brif alwadau'r symudiad Masnach Deg yn ei gyflwyniadau ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar bolisi masnach y dyfodol. Hoffai [Cymru Masnach Deg](#) weld asesiadau risg hollataidd yn cael eu cynnal ar gytundebau masnach a fyddai'n ystyried cynaliadwyedd, rhywedd a'r effeithiau ar drydydd partïon (e.e. gwledydd cynhyrchu coffi a allai gael eu niweidio yn sgil agor marchnadoedd i gyflenwad coffi o Frasil).

Cyfeiriodd nifer o'r rhai a gyfwelwyd at yr effaith gadarnhaol yr oedd defnyddio cyflenwyr mwy lleol, creu ynni'n lleol a byrhau cadwynau cyflenwi yn ei chael ar fywyd cymunedol ac ar fynd i'r afael â newid hinsawdd – yn enwedig yn sgil y cyfyngiadau teithio a osodwyd yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cysylltu â'r cysyniad o **economi sylfaenol**, a ddiffiniwyd ym [Maniffesto ar gyfer yr Economi Sylfaenol](#) 2013 fel y *rhan honno o'r economi sy'n creu ac yn dosbarthu nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir gan bawb (waeth beth yw eu hincwm a'u statws) oherwydd eu bod yn cefnogi bywyd bob dydd*. Ym mis Ionawr 2020, [awgrymodd](#) Lee Waters y *gall fod yn ymateb blaengar i lawer o'r problemau sylfaenol a sbardunodd pobl i bleidleisio yn y ffordd a wnaethant yn Refferendwm yr UE yn 2016*.

Nid yw maniffesto 2013 ond yn cynnwys un cyfeiriad at gynaliadwyedd amgylcheddol (t.8) a dim un at newid hinsawdd. Cafodd y cysyniad ei gyflwyno i Gymru gan adroddiad a gomisiynwyd gan y

Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) [What Wales Could Be](#) yn 2015, ac i Fae Abertawe yn benodol gan [What Wales Can Do](#) yn 2017. Yr unig gyfeiriad at yr amgylchedd yn nogfen 2017 yw i Gymdeithasau Tai ddatblygu mannau gwyrdd a Chartrefi fel Gorsafoedd Ynni, ac ysgrifennwyd yr adroddiad yn rhannol o ganlyniad i amheuon ynghylch adfywio a oedd yn seiliedig ar Forlyn Llanw Bae Abertawe.

Erbyn 2020, fodd bynnag, mae Adroddiad CCD yn cysylltu nod Cymru i fod yn *gymdeithas carbon isel* gydag uchelgais i *gaffael nwyddau a gwasanaethau yn deg ac yn lleol, lle mae'r economi sylfaenol yn cynhyrchu cyfoeth a chyflogaeth leol* (t. 167). Mae'r Sefydliad Materion Cymreig (SMC) wedi bod yn allweddol o ran [datblygu'r cysyniad hwn ar gyfer Cymru](#).

Gall yr economi sylfaenol – yn ôl nifer o'n hymatebwyr – gyfrannu at ddyfodol carbon isel mewn dau faes amlwg:

- a. **Cyflenwad bwyd:** Mor ddiweddar â diwedd 2015, gallai [What Wales Could Be](#) ddweud y byddai *dyfodol ffermio yng Nghymru'n cael ei bennu'n uniongyrchol gan wleidyddiaeth sy'n ymwneud â'r UE yn hytrach nag economeg*. (t. 63). Mae'n amlwg nad dyma'r achos bellach. Yn [System Fwyd yng Nghymru sy'n addas i genedlaethau'r dyfodol](#), mae WWF Cymru yn cymhwyso nodau a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r pwnc hwn. Maen nhw'n dweud, *dylai gweledigaeth fwyd newydd i Gymru ganolbwyntio ar ail-leoleiddio'r system fwyd, adfer cyfalaf amgylcheddol, cymdeithasol a dynol er mwyn cryfhau diogelwch bwyd a sicrhau mwy o werth yn lleol. Dylai edrych ar yr hyn y gallwn ni ei gynhyrchu'n gynaliadwy yng Nghymru, a theilwra hyn i alwadau defnyddwyr a chyfleoedd yn y farchnad*. (t. 7).

Mae hyn yn codi cwestiynau sylfaenol na ymdriniwyd â nhw yn [Strategaeth Ryngwladol](#) Llywodraeth Cymru, fel beth allai fod yn *fasnach deg a moesegol*. Er enghraifft, pa fwydydd ddylai Cymru eu mewnfario o dramor (yn hytrach na'u cynhyrchu'n lleol) a sut gallwn ni eu cael mewn modd moesegol? Pa mor gynaliadwy yw ein hallforion? A ddylem ni fod yn allforio cig coch o Gymru fel yr anogir gan y Strategaeth (t.16)?

Mae'n bosibl bod profiad y pandemig o darfu ar gadwynau cyflenwi wedi gwneud y cwestiynau hyn yn fwy pwysig fyth: *Mae amrywiaeth arferion o fewn system amaethyddol-ecolegol yn creu system mwy cadarn a gwydn sy'n llai agored i niwed gan ddynmeg marchnadoedd rhyngwladol* ([WWE](#), t. 7)

Cynigiodd astudiaeth [Deep Place](#) Tredegar yn 2014 gadwyn cyflenwi bwyd mwy lleol ar gyfer y gymuned honno fel rhan o economi leol wedi'i hadfywio, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r economi sylfaenol (adran 6.1). Byddai gweledigaeth o'r fath yn gofyn am newidiadau sylweddol mewn defnydd tir. Fel y mae [Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd](#) yn ei ddweud yn ei adroddiad ar [Ddefnydd Tir](#) *Mae cyfreithiau arfaethedig newydd y DU [ar ôl Brexit] ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd yn golygu bod cyfle untro nawr i ddiffinio strategaeth dir newydd* (t. 11).

- b. **Cynhyrchu ynni lleol.** Rydym wedi ein hysbrydoli gan ein sgysiau ag [Awel Aman Tawe](#) a [Phartneriaeth Ogwen](#), sy'n datblygu economi sylfaenol eu hardaloedd ar sail cynhyrchu ynni lleol. Fe gymerodd datblygiad Ynni Ogwen yn ardal Bethesda, Gwynedd, dair blynedd, ac mae wedi bod yn sbardun i fwy o gamau gweithredu datblygu cynaliadwy. Bellach, mae gan y bartneriaeth gerbydau trydanol cymunedol, mentrau tyfu cymunedol a chynlluniau tloidi ynni.

Maen nhw wedi darparu ymateb llawr gwlad i bandemig COVID-19, drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr a sefydlu [Cadwyn Ogwen](#). Mae'r cynllun hwn yn galluogi pobl i brynu bwyd lleol ar-lein a gaiff ei gludo wedyn i'r drws mewn cerbyd trydanol. Cawson nhw'r cerbyd o ganlyniad i gyllid gan y rhaglen datblygu gwledig [LEADER](#) a gyllidwyd gan yr UE. Nod Cadwyn yw parhau i gefnogi busnesau bwyd lleol ar ôl COVID.

Argymhellodd [Deep Place](#) batrwm datblygu economaidd tebyg ar gyfer Tredegar, ond ni chafodd ei roi ar waith.

Fodd bynnag, fel y dengys y diffyg cyfeiriad at newid hinsawdd yn y llenyddiaeth wreiddiol am yr economi sylfaenol, nid oes cyswllt o reidrwydd rhwng datblygu'r economi sylfaenol a mynd i'r afael â newid hinsawdd. **Argymhellwn fod y trydydd sector yn mynd ati i gryfhau'r cyswllt hwnnw**, gan adeiladu ar [gyflwyniad diagramatig WWF](#) (ar y dudalen nesaf):

Model Cysyniadol o'r Amgylchedd a'r Economi Sylfaenol

Dibynadwyedd ar yr amgylchedd ar gyfer gwydnwch a chynhyrchiant economaidd

Mae'r economi sylfaenol yn dibynnu ar **WASANAETHAU ECOSYSTEM** a chaiff gwydnwch amgylcheddol ei effeithio os tansellir y gwasanaethau hyn

Cefnogi Priddoedd Maetholion Bioamrywiaeth	Darparu Cnydau Pren Anifeiliaid Pysgod Ynni	Rheoleiddio Ansawdd Dŵr Ansawdd Aer Peilliad Storio Carbon Lleihau Perygl Llifogydd Cynhau Gwastraff	Diwylliannol Hamdden Buddion iechyd Tirweddau Hanesyddol Ymdeimlad o 'le' Gwerthfawrogi byd natur
--	---	---	---

ECONOMI SYLFAENOL 1.0

Defnydd cyfunol o hanfodion dyddiol drwy seilwaith o rwydweithiau a changhennau.

Mae'n cynnwys rhai o'n hanghenion sylfaenol o fewn 'lle' penodol: cyflenwad bwyd; seilwaith gan gynnwys (tai, trafuriaeth, dŵr, cartffosiaeth, ynni a chyflathrebu) a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus sy'n cefnogi bywyd bob dydd yn ein cymunedau

Caiff effeithiau amgylcheddol eu hachosi gan weithgarwch yr economi sylfaenol

Gall yr economi sylfaenol danseilio'r gwasanaethau ecosystem hyn drwy effeithiau ei gweithgareddau ar yr amgylchedd

- diraddio tir a phridd
- ôl troed ecolegol treuliant
- ôl troed adnoddau cynhyrchu
- cynnydd yn y foamrywiaeth a gollir
- carbon ac allyriadau eraill
- llygredd aer, dŵr a thir
- deunyddiau gwastraff

Mae'r economi sylfaenol yn adeiladu gallu pobl i fyw mewn modd cynaliadwy

Gweithgarwch economaidd sy'n cefnogi gwasanaethau'r ecosystem, yn lleihau effeithiau amgylcheddol, yn adfer byd natur i'r eithaf ac yn adeiladu gwydnwch tuag at newid amgylcheddol.

Mae'n cynnwys anghenion sylfaenol cymunedau am fwyd, seilwaith, ynni, gwarchod yr amgylchedd, rheoli dŵr a thir, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- buddsoddi mewn adfer yr ecosystem fel rhan greiddiol o economi lesiant
- manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i greu incwm / y gallu i fyw drwy weithgareddau sy'n seiliedig ar adfer byd natur (plannu coed / amaetholeg / eco-dwrstiaeth / gweithgynhyrchu bwyd / lleihau'r foamrywiaeth a gollir)
- manteisio i'r eithaf ar ddal a storio carbon a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella adnoddau naturiol y mae cymunedau'n dibynnu arnynt: aer, dŵr, tir, priddoedd, tinwedd
- defnyddio adnoddau mor effeithlon â phosibl wrth gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau
- lleihau i'r eithaf ôl troed ecolegol treuliant yn y gymuned, gan gynnwys gwastraff
- cefnogi cymunedau ac economïau i ymdrin â risgiau cynyddol newid hinsawdd (seilwaith hanfodol – ffyrdd, ynni, cyfleustodau; adeiladau; tai; rheoli dŵr a llifogydd)

Nawr ac yn y dyfodol

Ffigur 3 Netherwood Sustainable Futures a WWF Cymru 2020 ©

5. “Mae pethau’n digwydd”

Wrth i ni ysgrifennu’r adroddiad hwn, torrodd pandemig COVID-19, ac effeithiodd hynny nid yn unig ar agweddau ymarferol ein gwaith, ond fe ddylanwadodd hefyd ar amgyffred ein hymatebwyr o’r cwestiynau gwreiddiol.

- a. Pan ofynnwyd beth oedd y ffactor pwysicaf wrth bennu camau gweithredu ar yr hinsawdd yn y dyfodol, dywedodd mwyafrif “sut rydyn ni’n adfer o’r pandemig”. Ni ellir dim ond ailddechrau ymgyrchoedd a chynlluniau gweithredu blaenorol – mae barn pobl ar flaenoriaeth a risg wedi newid.
- b. Yn anffodus, gallai’r methiant i weithredu cynigion *Deep Place* fod wedi cyfrannu at allu Wales Online ar 5 Mai 2020 i ddisgrifio Tredegar fel [The impoverished Welsh town where lockdown could be ‘the final nail in the coffin’](#). Cafodd y stori drist hon ei hysbrydoli gan adroddiad *Centre for Towns*, [Covid-19 and our Towns](#), sy’n cynnig dadansoddiad ystadegol wrth ddesg o niwed posibl y “cyfyngiadau symud” ledled trefi Cymru a Lloegr. Wrth ysgrifennu ym mis Ionawr 2020, dywedodd [Lee Waters](#) y canlynol am fusnesau economi sylfaenol, *Maen nhw’n ... hanfodol i’n llesiant, oherwydd mae ymyrraeth ar eu cyflenwad nhw’n tanseilio bywyd diogel a gwaraidd, ond maen nhw hefyd yn fwy gwydn i ergydion economaidd allanol*. Bydd y ddamcaniaeth hon yn cael ei phrofi i’r eithaf nawr.
- c. Rydyn ni’n poeni ynghylch y prinder gwaith craffu sy’n cael ei wneud ar barhau â thrafodaethau masnach gyda’r UE a gwledydd eraill am fod y pandemig ac argyfyngau cyllido yn y byd academiaidd a’r trydydd sector yn tynnu sylw. Mae hyn yn cynyddu’r perygl y bydd y cynigion hyn yn canolbwyntio ar dwf a dadreoleiddio.
- ch. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn pryderu ynghylch gohirio’r gynhadledd ryngwladol ar newid hinsawdd, [COP26](#), yn Glasgow - ond roedd yn syfrdanol o isel ymhlith blaenoriaethau’r rhan fwyaf o’n hymatebwyr. Roedd y rhai hynny a gyfeiriodd ati’n credu ei fod yn bwysig bod camau gweithredu radical yn deillio ohoni, ond ychydig iawn oedd wedi canfod sut i gymryd rhan neu weithio ar gynigion manwl.
- d. Fel yr oeddem ni’n ysgrifennu hwn, roedd mudiad yn tyfu i ganfod [adferiad teg](#) o’r pandemig, ochr yn ochr â’r syniad o [bontio teg](#) i economi carbon isel. Roedd yr Alban eisoes wedi sefydlu [Comisiwn Pontio Teg](#), a gyflwynodd adroddiad rai wythnosau cyn y pandemig. O ran y pandemig a’r newid yn yr hinsawdd, mae’n rhaid i’r gwaith adfer fod yn rhyngwladol yn hytrach na’n genedlaethol. Mewn datganiad flwyddyn ar ôl datgan argyfwng hinsawdd, gwnaeth Llywodraeth Cymru [gysylltiad pendant](#) rhwng y ddau ac ymuno â [Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant](#). Mae hwn yn rhan o’r [Gynghrair Economi Llesiant](#), sy’n galw ar y byd i [Ail-adeiladu’n Well](#). Fodd bynnag, roedd llawer o’n hymatebwyr yn amau a allai Llywodraeth Cymru wrthsefyll y pwysau dros fynd am dwf yn unig ar ôl y pandemig ac ar ôl Brexit heb ystyried y newid yn yr hinsawdd.
- dd. Fe wyddom beth yw argyfwng. Mae rhai’n poeni bod yr ymateb i’r pandemig wedi dangos arweinyddiaeth a chydlyniant gwael yn fyd-eang, gyda ffocws mewnol dwys ar draul eraill (e.e. cystadlu am gyfarpar diogelu personol gan yrru’r prisiau i fyny) a thoriadau ofnadwy

mewn [cyllid ar gyfer rhaglenni bwyd](#).

Ar y llaw arall, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn awgrymu ei fod *wedi dangos ei bod yn bosibl i lywodraethau rhyngwladol a dinasyddion weithredu'n dda gyda'i gilydd, wrth wynebu'r wyddoniaeth sy'n ymwneud ag argyfyngau a throbbwyntiau byd-eang. Gobeithio y bydd arweinwyr sydd wedi cael eu cyflwyno dro ar ôl tro gyda'r ffeithiau sy'n ymwneud ag argyfyngau natur a hinsawdd, byddant nawr yn gweithredu gyda'r un lefel o frys* (CCD t. 411).

Mae Amsterdam yn [ceisio adeiladu adferiad o fewn ei 'doesen'](#). Rydym ni'n gobeithio (ond eto i gael ein hargyhoeddi) y bydd barn y Comisiynydd hefyd yn wir am Gymru. Os felly, gallai'r ddihareb a nodwyd yn [What Wales Could Be](#) (t. 10) *adfyd a ddwg wybodaeth, a gwybodaeth ddoethineb* brofi i fod yn gywir wrth i ni geisio dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd gyda doethineb.

6. Heriau i ni i gyd

Mae argyfyngau'n gofyn am gamau gweithredu yn ogystal â 'phapurau gwyntyllu', ac mae'r pandemig wedi gorfodi camau gweithredu na fyddem wedi credu oedd yn bosibl o'r blaen. Felly wrth i un argyfwng leihau, rydym ni'n herio rhanddeiliaid yng Nghymru i gymryd camau gweithredu cymesurol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

1. Trydydd sector Cymru:

(a) Ymatebodd y sector yn gyflym i argyfwng COVID-19, gan ei wneud yn rhan greiddiol o bob agenda [Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector](#) (CPTS) ers mis Mawrth 2020. Yn yr un modd, **dylai'r argyfwng hinsawdd fod ar agenda pob CPTS**.

(b) Ymatebodd y sector i argyfwng Brexit, nid yn unig drwy CPTS, ond hefyd drwy ffurfio [Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit](#) a chymryd rhan yng [Nghynghrair Cymdeithas Sifil Brexit](#) ar gyfer y pedair cenedl. Nawr, mae arnom angen **Cynghrair Datblygu Cynaliadwy cryfach yng Nghymru**, a chynghrair pedair cenedl i gomisiynu gwaith ymchwil a'n galluogi ni i lobio llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig mewn modd deallus ar faterion fel masnach. Mae'n rhaid i ni fanteisio ar ohiriad COP26 i gydlynu gweithgareddau o amgylch y gynhadledd honno a thu hwnt. Bydd gweithio gyda'r byd academaidd (gan gynnwys y [Ganolfan Newid Hinsawdd a Thrawsffurfio Cymdeithasol \(CAST\)](#) a'r [Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy \(SPRI\)](#) ym Mhrifysgol Caerdydd), a chyda busnesau ac undebau llafur yn hanfodol, yn ogystal â mynd ati o ddifrif i gynnwys cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME). Mae digwyddiadau casineb sy'n ymwneud â COVID a Brexit wedi effeithio'n anghyfartal ar gymunedau BAME Cymru; mae'r argyfwng hinsawdd yn taro galetaf gwledydd sydd â chymunedau ar wasgar yng Nghymru. Rhaid i ni beidio â gadael i'r sefyllfa hon barhau, lle mae'r [trydydd sector yn gyffredinol](#) ac, yn benodol, y [lobio ar yr hinsawdd](#) wedi'u dominyddu gan bobl wynion.

(c) Po fwyaf y gweithiom ni ar y papur hwn, mwya' i gyd oedd ein hymwybyddiaeth o'r ffaith y byddai'r diffyg arbenigedd economaidd o fewn trydydd sector Cymru a diffyg y sector i ddefnyddio'r arbenigedd hwn yn ei gwneud hi'n anodd iawn i gyflawni her (b). *Rhan o'r broblem yw pa mor fach yw cymuned bolisi Caerdydd lle mae llawer yn ymwneud yn bennaf â materion*

aneconomaidd. Felly, y broblem yw bod y grŵp yn meddwl am ddiffiniadau o broblemau cymaint â datrysiadau. ([What Wales Could Be](#) t. 11). Mae Oxfam ac WWF, fel mudiadau Prydain Fawr neu ledled y DU, eisoes yn cyfrannu, yn ogystal â'r SMC. Byddem ni'n annog [trydydd sector Cymru i ymgysylltu'n fwy](#) gyda'u gwaith a chydag [Economi](#). Ymbiliwn ar CGGC i geisio cael cyllid cydgysylltiedig er mwyn cynhyrchu gwaith ymchwil annibynnol a arweinir gan y trydydd sector ar yr economi sylfaenol (gweler Adran 4) a Chymru carbon isel.

(ch) Ni ddylem esgeuluso'r pethau bach sy'n lleihau ein hól troed carbon. Argymhellwn [The New Normal](#), sydd wedi'i ddylunio ar gyfer busnesau bach, ond sydd hefyd yn ddefnyddiol i gyrff bychan o fewn y trydydd sector sy'n dymuno gwneud hynny.

2. **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol:** Rydym yn croesawu'r ffocws ar newid hinsawdd yn adroddiad CCD, a'r ymgysylltu llawer gwell â thrydydd sector Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nawr, rydym yn annog y Comisiynydd i wneud y canlynol:
 - (a) **ymuno â'r trydydd sector yn y Gynghrair** a ddisgrifiwyd yn heriau 1(b) ac 1(c), efallai trwy fynd ati i gomisiynu gwaith ymchwil ar y cyd ar yr economi sylfaenol yn sgil ymadael â'r UE, gan ganolbwyntio'n benodol ar y sectorau ffermio, bwyd a diod a chynhyrchu ynni. Byddai hyn yn diweddar *What Wales Could Be* ar gyfer Cymru argyfwng hinsawdd ar ôl Brexit ac ar ôl COVID.
 - (b) Fel rhan o'r gynghrair traws-sector hon, byddwn yn erfyn arni i **ailsefydlu Comisiwn Cymru ar Newid Hinsawdd**, er mwyn darparu'r ymchwil a'r mewnbwn arbenigol y bydd eu hangen ar y gynghrair ehangach. Er mwyn osgoi dyblygu, gallai hwn hefyd gyflawni swyddogaethau Grŵp Cynghori ar Gyfiawnder Hinsawdd Llywodraeth Cymru (CCD t. 182) neu'r Comisiwn Cyfiawnder Hinsawdd (t. 318) sydd wedi'i gynnig ond heb ei sefydlu eto.
3. **Llywodraeth Cymru:** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a gwaith Llywodraeth Cymru ar [economi carbon isel](#), [datgarboneiddio'r sector cyhoeddus](#), [addasu i'r niwed yn yr hinsawdd](#), yr [economi sylfaenol](#) a'r [Contract Economaidd](#), yn darparu fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd yng Nghymru. Ond, *fel mewn cymaint o feysydd polisi, mae bwlch gweithredu sylweddol* (CCD t. 511 gw. t. 177, t. 699, t. 705). *Un her allweddol fydd sut gall Llywodraeth Cymru a chyryff cyhoeddus eraill sicrhau pontio teg i economi carbon isel, a sut gallant ddiogelu'r rhai mwyaf difreintiedig rhag effeithiau newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.* (AC t. 50). Mae llawer o'r camau sydd eu hangen yn ystod y deng mlynedd nesaf eisoes wedi'u nodi yn [yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar lwybr carbon isel](#). Mae gwaith WWF (gweler diwedd Adran 4) yn dangos sut y gall y strategaeth carbon isel a'r strategaeth economi sylfaenol atgyfnerthu ei gilydd. **Erfyniwn i'r strategaethau hyn gael eu gweithredu mewn modd cydunol a chydlynol a chael eu llunio ar y cyd.**
4. **Llywodraeth y DU:** Mae'r argyfwng hinsawdd yn galw am flaenoriaethau newydd mewn masnach ryngwladol. Erfyniwn ar Lywodraeth y DU i fanteisio ar y cyfle hwn i **drafod y cynigion masnach cyntaf hyn o ddifrif** a chanolbwyntio ar werthoedd moesegol yn ogystal â rhai 'economaidd' yn unig (gweler Adran 2 uchod), a chefnogi galwad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i *Lywodraeth Cymru geisio manteisio ar gyfleoedd i gynorthwyo Llywodraeth y Deyrnas Unedig i weithio allan polisi masnach newydd ar ôl Brexit i hyrwyddo gwerthoedd o fewn perthnasoedd masnachu nad ydynt yn ecsbloetio pobl na'r blaned ...* (CCG t. 428).

7. Casgliad

Efallai y bydd rhai agweddau ar Brexit yn llesteirio'r cynnydd yr hoffem ni, a'r cydweithwyr ymroddedig yr ydym wedi siarad â nhw, ei weld yng Nghymru. Fodd bynnag, effaith fechan yw hon o'i chymharu â newid hinsawdd.

Felly nawr yw'r amser i ddod â'n hegni cyfunol ynghyd i wneud [#justrecovery](#) (adferiad teg). Rhaid i hwn fynd i'r afael â newid hinsawdd, byw o fewn y '[doesen](#)', sefydlu economïau newydd sy'n creu gwydnwch lleol er mwyn diwallu anghenion pobl, ond hefyd cysylltu'r lleol a'r byd-eang trwy ddatblygu masnach a chydberthnasau eraill sy'n rhoi'r gorau i waethygu anghydraddoldeb ac yn mynd ati i hybu buddiannau'r tlotaf yn y byd.

8. Cyfeiriadau a Llyfryddiaeth

Isod rhestrir yr holl ddeunydd cyhoeddedig (wedi'u hargraffu ac ar y we) y cyfeirir atynt yn y papur gwyntyllu, ynghyd â deunyddiau eraill a argymhellwyd gan y sawl a gyfwelwyd neu a ddylanwadodd ar ein meddylfryd. Mae'r rhain wedi eu grwpio yn ôl meysydd polisi eang. Nid yw'r Llyfryddiaeth hon yn gynhwysfawr ar gyfer unrhyw faes – mae llawer o'r dogfennau yn cynnwys llyfryddiaeth lawnach.

Cyrchwyd yr holl ddolenni gwe ar 19.05.2020.

Brexit a'r Undeb Ewropeaidd – cyffredinol

Cynghrair Cymdeithas Sifil Brexit – tudalen gartref: <https://www.brexitcivilsocietyalliance.org/homepage>

Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit – tudalen gartref: <https://wcva.cymru/cy/projects/fforwm-cymdeithas-sifil-cymru-ar-brexit/>

Llywodraeth Cymru, [*Brexit: Diogelu Dyfodol Cymru*](#) (Ion 2017) – gellir ei lawrlwytho, ac mae dogfennau a datganiadau dilynol yn: <https://llyw.cymru/diogelu-dyfodol-cymru-2020>

Llywodraeth Cymru, Rhaglen Datblygu Gwledig LEADER – tudalen gartref: <https://llyw.cymru/leader>

Newid hinsawdd a datgarboneiddio

Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru, [*Degawd i adfer y sefyllfa: Briff ar gyfer Aelodau Cynulliad Cymru*](#) (Chwef 2020), gellir ei lawrlwytho yn: <http://stopclimatechaos.cymru/papers-publications-and-articles/>

Cynhadledd Newid Hinsawdd Cenhedloedd Unedig y DU (COP26)– tudalen hafan: <https://www.ukcop26.org/>

Peter Davies, *12 months on – reflections on the Climate Change Commission for Wales* (Mawrth 2017) - <https://www.pdpartnership.co.uk/single-post/2017/03/05/12-months-on---reflections-on-the-Climate-Change-Commission-for-Wales>

Lesley Griffiths, *Datganiad Ysgrifenedig: Un flwyddyn ers Datgan Argyfwng Hinsawdd* (Llywodraeth Cymru, Ebrill 2020) - <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-un-flwyddyn-ers-datgan-argyfwng-hinsawdd>

Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, [*Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell: Datgarboneiddio cartrefi presennol yng Nghymru*](#) (Mai 2019)

